Gwybodaeth i Gleifion
Triniaeth Mitomycin

Yr Adran Wroleg

Beth yw triniaeth â Mitomycin?

- Mae Mitomycin yn fath o gemotherapi a ddefnyddir i drin canser arwynebol ar y bledren (canser sy'n effeithio ar leinin y bledren ac nid cyhyr y bledren).
- Defnyddir y driniaeth hon i ddinistrio unrhyw gelloedd canser sydd ar ôl yn y bledren ar ôl llawdriniaeth.
- Mae'n cael ei roi yn y bledren drwy gathetr ac mae'n lleihau'r risg o'ch canser ddychwelyd.
- Rhoddir Mitomycin naill ai fel triniaeth unigol ar ôl llawdriniaeth i dynnu canser y bledren neu fel rhan o gwrs a roddir unwaith yr wythnos am 6 wythnos.

A oes unrhyw reswm pam na ddylwn i gael Mitomycin?

- Os oes gennych alergedd at Mitomycin.
- Os oes gennych haint ar y llwybr wrinol (UTI).
- Os ydych yn cymryd moddion imiwnoataliol neu os oes gennych anhwylder ar eich system imiwnedd.
- Os oes gennych anhwylder gwaedu.
- Os ydych yn bwydo ar y fron.
- Os ydych yn feichiog, o bosib yn feichiog neu'n ceisio beichiogi.

Oes angen i mi wneud unrhyw beth cyn y driniaeth?

- Peidiwch ag yfed unrhyw beth am 4 awr cyn y driniaeth. Gallwch yfed un gwydr o ddŵr gyda'ch brecwast. Gallwch fwyta fel arfer.
  Drwy yfed llai, bydd eich arennau yn cynhyrchu llai o wrin. Bydd hyn yn eich helpu i atal y Mitomycin rhag cael ei hydoddi, a bydd yn haws ei gadw yn y bledren.

- Os ydych fel arfer yn cymryd tabledi dŵr (diwretigion), dylech eu cymryd ar ôl i'ch triniaeth ddod i ben neu o leiaf 6 awr cyn y driniaeth. Bydd hyn yn lleihau faint yr wrin gaiff ei gynhyrchu, ac yn eich galluogi chi i ddal y Mitomycin yn y bledren.

Beth sy'n digwydd yn ystod y driniaeth?

- Bydd gofyn i chi basio wrin fel bod y bledren yn wag.
- Caiff eich wrin ei archwilio i wneud yn siŵr nad oes haint ynddo.
- Bydd cathetr (tiwb gwag) yn cael ei basio i mewn i'r bledren drwy'r beipen ddŵr (wrethra) i ddraenio unrhyw wrin sy'n weddill. Rhoddir wedyn y Mitomycin yn y bledren drwy'r cathetr.
- Yna, caiff y cathetr ei dynnu. Mewn rhai achosion, efallai bydd y cathetr yn cael ei adael yn y bledren pan fyddwch yn derbyn eich triniaeth. Os mai hyn yw'r achos, bydd y cathetr yn cael ei glampio er mwyn cadw'r Mitomycin yn y bledren.
- Gofynnir i chi beidio â phasio wrin am 1 awr; bydd hyn yn galluogi'r Mitomycin i ddinistrio'r celloedd canser.
- Gallwch gerdded o gwmpas tra mae'r Mitomycin yn y bledren, bydd hyn yn helpu'r Mitomycin i weithio ar y bledren yn ei chyfanrwydd.

Am ba hyd bydd y driniaeth yn para?

- Bydd angen i chi gadw'r Mitomycin yn y bledren am 1 awr.

Beth dylech ei wneud ar ôl y driniaeth?

- Pan fydd y Mitomycin yn y bledren ers 1 awr, bydd gofyn i chi basio wrin yn y toiled (dylai dynion eistedd yn hytrach na sefyll i osgoi tasgu). Os cafodd y cathetr ei adael i mewn yn y bledren yn ystod y driniaeth, caiff y Mitomycin ei ddraenio i mewn i fag cyn tynnu'r cathetr allan.
- Ar ôl yr amser hwn, gallwch fynd adref. Dylech deimlo'n ddigon da i yrru eich hun ar ôl y driniaeth.
- Os ydych yn hen neu'n wan, dylech drefnu bod ffrind neu berthynas yn dod i'ch casglu.
- Cewch yfed rhywbeth yr adeg yma os ydych eisiau.
- Rhyw – dylech ddefnyddio condom os ydych yn cael cyfathrach rywiol/rhyw drwy'r geg o fewn y 24 awr gyntaf
- Gallwch gyflawni eich gweithgareddau arferol ar ôl y driniaeth ac nid oes cyfyngiadau ar yrru, dychwelyd i'r gwaith ac ati.

Sicrhewch eich bod yn gwybod pryd bydd eich triniaeth neu apwyntiad nesaf cyn i chi adael.

Oes unrhyw ragofalon arbennig y dylwn i eu cynnal gartref?

- Am y 6 awr gyntaf ar ôl eich triniaeth dylech barhau i eistedd wrth basio wrin. Mae hyn yn lleihau'r risg o sblashio ar eich croen neu o amgylch y toiled. Argymhellir golchi ardal eich organau cenhedlu gyda sebon a dŵr ar ôl pasio wrin yn ystod yr adeg hon.
- Ar ôl pasio wrin, arllwyswch 2 gwpan o gannydd y cartref heb ei wanhau i'r toiled, a'i adael am 14 munud cyn tynnu'r dŵr. Sicrhewch nad oes unrhyw un yn defnyddio'r toiled yn ystod yr amser hwn neu cyn fflysio.
- Sicrhewch eich bod yn golchi eich dwylo yn drwyadl ar ôl pasio dŵr.
- Ar ôl 6 awr nid oes angen rhagofalon mwyach.

Oes unrhyw sgil effeithiau posibl all godi o'r driniaeth?

Bydd ychydig o sgil effeithiau fel arfer. Os ydynt yn datblygu, maent fel arfer yn dechrau o fewn 3-4 awr ar ôl y driniaeth ac yn para hyd at 24 awr.

Mae'r sgil-effeithiau cyffredin yn cynnwys:

- Poen a/neu losgi wrth basio wrin
- Angen pasio wrin yn rheolaidd (llid ar y bledren, systitis)

Bydd yfed 2 litr o hylif, oni bai y cewch gyngor fel arall, ac osgoi te/coffi am 24 awr ar ôl y driniaeth yn helpu i waredu unrhyw gyffur sy'n weddill yn y bledren a lleddfu'r symptomau uchod. Mae'r uchod oll oherwydd effaith y driniaeth ar y bledren, a does dim i boeni amdano. Dylent wella ar ôl 2-3 diwrnod.

Cysylltwch â'ch Meddyg Teulu/Nyrs yn syth os:-

- yw'r symptomau'n para am fwy na 3 diwrnod
- yw'r wrin yn gymylog/arogli'n gryf
- cwyd gwres uwch na 38°C
- cwyd brech ar y croen

Bydd angen i chi roi gwybod iddyn nhw eich bod wedi cael triniaeth Mitomycin.

Pa driniaeth ddilynol a gaf?

Ar ôl i chi gwblhau'r driniaeth byddwn yn trefnu i chi gael systoscopi hyblyg mewn 8-12 wythnos i weld a weithiodd y driniaeth. Gwneir hyn fel arfer gan ddefnyddio anesthetig lleol oni bai bod eich meddyg yn dweud fel arall wrthych.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, gweler y manylion cyswllt isod ar gyfer y wardiau Wroleg a'r nyrsys Wroleg:-

Wroleg Ward D 2 Dwyrain
01633 234043 / 234044 (24 awr)

Adran Cleifion Allanol Wroleg
01633 234979
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ward Dydd Wroleg
01633 656378 / 656377
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Nyrsys Clinigol Arbenigol Wro-Oncoleg
Julie Simpson
Sian Lewis
Louise Broadway
Kathleen Connor-Middleton
01633 238976 (Bydd yn dychwelyd negeseuon llais pan nad ydynt ar ddyletswyddau clinigol)
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ymarferydd Nyrsio Wroleg
Laura Reynolds
Leanne Denning
01633 234758
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ymholiadau llawdriniaeth/cyn-derbyn
01633 234970 / 238568
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Cyfeiriadaeth:

Kyowa 2003 Intravesical Mitomycin – C "Timing is everything"

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".